# Be' rown ni'n enw?

## gan Myrddin ap Dafydd




Be' rown ni'n enw ar y babi newydd
sy'n tynnu'r holl deulu at ei gilydd?

Mae'n gafael yn dynn yn fy mys. Ydi *Feis*
ar fabi bychan yn enw neis?

Nid oes ganddo flewyn o wallt. Wnaiff ***'Pen wy'***
y tro nes bydd ganddo ychydig mwy?

Mae'n sgrechian crio o hyd. Ydi ***'Swnyn'***
yn enw derbyniol ar y mymryn?

***'Cwcws-mêl,'*** meddai Dad. ***'Siwgwr Mam,'*** meddai Mam.
A dwi am ei alw yn ***'Coesau Cam'***.

Ond diwrnod oed ydi'r tuchanwr
fu'n gynnes tu mewn i Mam tan neithiwr,
cyn dod ar ei daith, o dywyllwch i'r golau,
gan wasgu rhwng esgyrn a llithro i'n breichiau
a dechrau anadlu am y tro cyntaf.
Rwyf am ei alw ***'Y Rhyfeddod Mwyaf!'***

Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd